Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Communities, Equality and Local Government Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

29 Ebrill 2014

Annwyl Gyfeillion,

**Bil sy'n ymwneud â rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**

Yn natganiad y Prif Weinidog ar Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar 16 Gorffennaf 2013, nododd ei fod yn bwriadu cyflwyno bil sy'n ymwneud â rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig ('y Bil') ym mis Mehefin 2014.

Yn amodol ar gyflwyno'r Bil yn ôl y bwriad, ac yna'r Pwyllgor Busnes yn cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ('y Pwyllgor') i'w ystyried yng Nghyfnod 1, byddwn yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Cymeraf y cyfle hwn i roi hysbysiad ymlaen llaw i chi ynglŷn â'n bwriad, oherwydd mae'n debygol y bydd angen inni gasglu llawer o'r dystiolaeth ar gyfer ein gwaith cyn diwedd tymor yr haf.

Efallai y byddwch am wybod bod y Pwyllgor yn bwriadu clywed tystiolaeth lafar gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y Bil cyn toriad yr haf. Cyhoeddir manylion y sesiwn dystiolaeth hon, ynghyd â'r trawsgrifiad, ar wefan y Pwyllgor.


Gellir gweld rhagor o wybodaeth am daith Biliau drwy'r Cynulliad yma:
[http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm](http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance.htm)

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol / Communities, Equality and Local Government Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel: 029 2089 8032
E-bost / Email : Pwyllgor.CCLlG@cymru.gov.uk

Gobeithio bod yr hysbysiad hwn o gymorth. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â mi neu â Chlerc y Pwyllgor:
Sarah Beasley – 029 2089 8032 / Pwyllgor.CCLlL@cymru.gov.uk

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

Yn gywir



**Christine Chapman AC /AM**

**Cadeirydd / Chair**